


# Mynediad y Gymuned at Ffermydd a Thir

Ysbyty Treforys, Astudiaeth Achos

Mannau Gwyrdd Gwydn

Resilient Green Spaces
Mannau Gwyrdd Gwydn

# Sefydlu prosiect Amaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA)

Mae Cyngrhair y Gweithwyr Tir (LWA) a Shared Assets wedi cyfuno i gael hyd i ffyrdd i wireddu'r heriau a'r cyfleoedd o ran mynediad at dir ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chymunedau lleol sydd â diddordeb mewn ffermio amaethecolegol fel rhan o brosiect Mannau Gwyrdd Gwydn. Diben y gyfres hon o astudiaethau achos yw dangos enghreifftiau o arfer dda sy'n bodoli ar hyn o bryd ymhlith grwpiau amrywiol yng Nghymru, yn ogystal ag egluro sut maent wedi ceisio trechu rhai o'r rhwystrau maent wedi dod ar eu traws ar hyd y daith, er mwyn ysbrydoli eraill sydd ar yr un trywydd efallai.

## Sefydlu prosiect Amaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) ar dir Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae Ysbyty Treforys, ysbyty dysgu gyda 750 o welyau, yn cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ac fe'i leolir mewn ardal weddol uchel o safbwynt amddifadedd yng ngogledd Abertawe. Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio ar y cyd â thyfwr lleol i ddechrau sefydlu fferm Amaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) ar ei dir. Mae'r berthynas unigryw hon rhwng bwrdd iechyd a CSA y cyntaf o'i fath yn y DU.

Model amaethyddol yw CSA lle mae'r cyfrifoldebau a buddion ffermio'n cael eu rhannu ymhlith ffermwyr a defnyddwyr. Mae gwahanol fathau o CSA ond yr un mwyaf cyffredin yw lle bydd aelodau'r gymuned yn cytuno i brynu 'cyfranddaliadau' cyn y cynhaeaf, er mwyn i'r ffermwr gael yr arian i fuddsoddi yn y tymor tyfu gyda gwarant o sylfaen cwsmeriaid (fydd yn derbyn blychau llysiau rheolaidd yn ddiweddarach).

Ar wahân i gynyddu mynediad at fwyd iachus a gynhyrchir yn lleol, gall CSA hefyd ddarparu amrediad o fuddion anuniongyrchol, megis gwella bioamrywiaeth, lleihau unigedd ac unigrwydd ymhlith y boblogaeth leol, cyfoethogi'r economi, cefnogi'r economi cylchol, a darparu cyfleoedd addysgol ar gyfer y gymuned ehangach. Trwy ddatblygu model gofal bioseicogymdeithasol fel hyn, bydd yn helpu lleihau'r pwysau ar fodel meddygol darpariaeth iechyd.

Roedd y cynnig ar gyfer CSA Treforys yn gweddu'n agos i Strategaeth Sefydliadol y Bwrdd Iechyd, Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026 Llywodraeth Cymru - Datganiad Llesiant, eu cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach', Adroddiad Blynyddol (Rhifyn Arbennig) y Prif Swyddog Meddygol 2019-2020: Diogelu ein Hiechyd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Pwy oedd yn cyfrannu?

Mae Rob Hernando, sydd â chefndir ym maes amaeth amgen a chynaliadwyedd, wedi cyfrannu at brosiectau estyn allan yn y gymuned yn ardal Abertawe ers nifer o flynyddoedd, ac mae wedi gwirfoddoli gyda CSA Cae Tân ar Benrhyn Gŵyr ers 2017. Roedd Rob yn awyddus i bobl o ogledd a dwyrain Abertawe gael mynediad at fuddion cynllun CSA lleol.

Ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), cynhaliodd Rob astudiaeth ddichonoldeb oedd yn dangos y potensial i CSA lwyddo yn yr ardal hon; ond daeth ar draws problemau'n sydyn iawn o ran cael hyd i dir oedd ar gael ac yn addas ar gyfer y cynllun CSA. Daeth Amanda Davies, Rheolwr Gwella Gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, yn ymwybodol o gais Rob. Mae swydd Amanda'n golygu cadw trosolwg ar reoli tir ac eiddo'r Bwrdd Iechyd, ac roedd yn deall yn iawn y ffyrdd ehangach y byddai CSA yn gwella iechyd a llesiant trigolion.

Eglurodd fod y Bwrdd Iechyd yn berchen ar 55 erw o dir yn Nhreforys, y rhan fwyaf o'r ardal yn debygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiadau gofal iechyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, oherwydd topograffeg y tir, roedd gan y Bwrdd Iechyd 7.6 erw oedd yn anaddas ar gyfer y math yma o ddatblygiad, ac a oedd yn cael ei rentu allan fel tir pori. Yn ei barn hi, byddai'r tir yn addas ar gyfer y prosiect CSA pe byddai'r Bwrdd Iechyd yn cymeradwyo'r cynnig.

Dywedodd Amanda fod gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb i, a'i fod yn gyfrannwr pwysig o safbwynt lleihau anghydraddoldebau iechyd ymysg y boblogaeth a wasanaethir gan y Bwrdd. Rhan o weledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw bod yn sefydliad cynaliadwy, sy'n diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd. Un o Amcanion Llesiant y Bwrdd Iechyd yw:

**"Ceisio dyrannu ein hadnoddau i ddiwallu anghenion, a gwella iechyd y boblogaeth."**



Amanda a Rob ar safle'r CSA (Diolch i: Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Raglen Lywodraethu ym Mehefin 2021. Mae'r Datganiad Llesiant sy'n rhan o'r rhaglen yn olrhain sut mae amcanion llesiant yn bodloni dyletswyddau statudol cyrff cyhoeddus dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ôl Amcan 9, dylai Bwrdd Iechyd fel corff cyhoeddus ymdrechu i:

**"Ymwreiddio ein hymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a Natur ym Mhopeth a wnawn".**

Fel sefydliad angori, mae'r Bwrdd Iechyd yn sylweddoli eu bod yn meddu ar asedau megis tir, y gellir eu defnyddio er budd y boblogaeth leol. Yn Ionawr 2021, cysylltodd Amanda â Rob a CSA Cae Tân i ystyried ymhellach yr hyn oedd yn gysylltiedig â'r cynnig. Ar ôl i'r hyn a glywodd ac a welodd Amanda wneud cryn argraff arni, aeth ymlaen i hyrwyddo'r prosiect gyda'r Bwrdd Iechyd, gan ddefnyddio iaith a dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ymrwymiadau o ran mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a dull o weithio 'Iechyd Cyfunol' o ran y polisi iechyd a nodir uchod, i fod yn gyfrwng i geisio cymeradwyaeth y Bwrdd Iechyd i gefnogi sefydlu CSA.

## Beth oedd eu nodau?

Nod CSA Ysbyty Treforys yw gwella iechyd pobl ac amgylchedd yr ardal trwy gynyddu mynediad at fwyd da, mannau gwyrdd, a chysylltiad gyda natur, addysg a hyfforddiant, a chyfoethogi bioamrywiaeth. Ar ôl ei sefydlu, gobaith y CSA yw cynhyrchu digon o fwyd ar gyfer rhyw 100-150 o gartrefi'r wythnos trwy gynllun blychau llysiau, darparu mwy o fwyd ar gyfer adran arlwyo'r ysbyty ar gyfer digwyddiadau arbennig, a rhoi unrhyw fwyd dros ben i fanciau bwyd lleol i sicrhau na chaiff unrhyw beth ei wastraffu. Hefyd bydd y CSA yn cefnogi'r fenter Ysgolion Iach, sy'n caniatáu i blant yr ardal leol ddysgu mwy am yr amgylchedd a chymryd rhan mewn prosiect tyfu.

Yn ogystal mae cyfleoedd amlwg i staff a chleifion yr ysbyty elwa o allu ymweld â CSA ar garreg eu drws, gan ystyried yr effaith o dreulio amser mewn amgylchedd naturiol ar adfer yn sgil salwch a chadw iechyd meddwl da. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol er mwyn cyflawni ymchwil gan Brifysgol Abertawe i werthuso manteision y CSA. Trwy gofnodi effaith y CSA o'r cychwyn cyntaf, gobaith y tîm ar safle Ysbyty Treforus yw y bydd eu profiad yn enghraifft o arfer dda ac yn ysbrydoli byrddau iechyd ac awdurdodau eraill ledled y DU i gychwyn prosiectau tebyg ar eu hystadau nhw.




Map y safle CSA arfaethedig
(Diolch am y llun: Google Earth a olygwyd gan Dîm CSA/Bwrdd Iechyd)

## Beth a gyflawnwyd?

Ar ôl misoedd o drafod, derbyniodd y prosiect gymeradwyaeth y Bwrdd Iechyd yn Nhachwedd 2021. Mae'r CSA wedi cofrestru fel Cwmni Buddiant Cymunedol.Cytunwyd y brydles, ac fe'i harwyddwyd ym Mai 2022 ar gyfer y safle 7.6 erw. Yn lle talu rhent rhad, bydd y CSA yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddi a phresgripsiynau cymdeithasol, ac yn darparu peth o'r bwyd ar gyfer cleifion yr ysbyty er mwyn cefnogi digwyddiadau arbennig megis 'Dyddiau Cynaliadwyedd' neu 'Wythnos Llysieuwyr/Fegan'.

Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o siopau coffi o fewn Ysbyty Treforys, a bydd y timau arlwyo'n darparu'r gwaddodion coffi, i'w defnyddio fel compost ar y safle, sy'n cyfrannu at yr economi cylchol.

## Yr hyn na lwyddwyd i'w gyflawni?

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r CSA wedi cynhyrchu cynhaeaf. Er hynny, mae'r cynllun ar gyfer gweddill 2022 yn golygu paratoi'r tir i dyfu a sefydlu'r seilwaith angenrheidiol, megis llawr caled ar gyfer parcio a'r twneli plastig. Bydd y tymor tyfu a'r cynhaeaf cyntaf yn digwydd yn 2023/24.

Mae'r CSA wedi llofnodi prydles am 10 mlynedd, sydd â chymal terfynu o 5-mlynedd. Mae hyn yn golygu nad yw'r CSA ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer rhai o'r cronfeydd cyllido mwy y bydden nhw fel arall yn gwneud cais iddynt i gefnogi eu gweithgareddau.

## Pa rwystrau a wynebwyd, a pha ymdrechion a wnaethpwyd i drechu'r rhain?

Y prif rwystr a wynebwyd yn ystod y broses o gadarnhau'r tir ar gyfer y CSA oedd tawelu meddwl cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i roi caniatâd i'r CSA, fel busnes, i gael mynediad at dir cyhoeddus fel man gweithredu. Yn y lle cyntaf, oherwydd bod hyn yn rhywbeth newydd, oedd heb ei wneud rhywle arall o'r blaen, roedd pobl yn nerfus am wneud hyn. Er hynny, ar ôl i Amanda egluro y byddai'r CSA yn darparu amrediad o fuddion i'r ysbyty, ei gleifion a'r gymuned ehangach, sy'n gweddu i bolisïau ac amcanion sefydliadol y Bwrdd Iechyd, llwyddwyd i'w perswadio am ei werth. Yn benodol, roedd yn defnyddio iaith dull o weithio 'Iechyd Cyfunol', sy'n pwysleisio y dylid ystyried newid hinsawdd a diogelwch bwyd/dŵr fel rhan o ofal iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo'n llwyr i'r prosiect hwn, ac yn awyddus iddo lwyddo, ac mae'n gweithio gyda'r Brifysgol ac eraill i werthuso effaith ei lwyddiant.

## A fyddai'n bosibl dysgu gwersi ar gyfer grwpiau cymunedol eraill?

O'u profiad cadarnhaol o gydweithio, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe'n cydnabod buddion gweithio gyda phrosiectau ar lawr gwlad. Mae'r ddwy ochr wedi dysgu gwersi sy'n werth eu rhannu gyda grwpiau eraill sydd â diddordeb mewn gwneud rhywbeth tebyg.

Nododd Rob ei fod yn bwysig bod yn amyneddgar, a pheidio rhoi'r ffidl yn y to, oherwydd i sefydliadau mawr megis Bwrdd Iechyd, mae'n gallu cymryd amser i gymeradwyo a chadarnhau trefniadau llywodraethu, yn enwedig os nad ydynt wedi sefydlu'r math yma o fframwaith o'r blaen. Er mwyn rhoi cefnogaeth i lywio'r prosesau hyn, mae o gymorth mawr i gael 'hyrwyddwr' (megis Amanda) o fewn y sefydliad, sy'n deall y prosiect arfaethedig, a'i fanteision, ac sy'n gallu egluro hyn i gydweithwyr trwy ddefnyddio'r iaith gywir - gall cyfeirio at amcanion polisi maent yn ceisio eu gwireddu fel sefydliad fod yn hynod ddefnyddiol yn hyn o beth.

O safbwynt y cyd-destun iechyd, meddai Amanda:

**"Yn debyg i lawer o rannau eraill o Gymru, fel Bwrdd Iechyd rydym yn wynebu heriau cynyddol o ran cadw ein poblogaeth yn iach. Mae angen inni feddwl mewn ffordd wahanol ynghylch sut y gallwn fynd i'r afael â'r heriau hyn er mwyn cael gwasanaeth iechyd a gofal cynaliadwy yn y dyfodol. Nid oes rhaid i'r GIG fod yn gyfrifol ar ei ben ei hun am gyflenwi gofal iechyd, ond gall wireddu canlyniadau cadarnhaol a mesuradwy trwy gefnogi cynlluniau megis CSA, fydd yn lleihau'r pwysau gan y GIG. Trwy helpu sefydlu CSA ar ein tir, mae'n gyfle perffaith i gefnogi ein cymunedau, cynyddu llesiant ac annog mwy o fynediad at fwyd fforddiadwy, iachus."**

Barn Rob yw bod y bartneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd wedi arwain at fwy o gyfleoedd ar gyfer menter y CSA nag y byddai wedi bodoli fel arall, ond ar yr un pryd, mae cynnig bwyd organig hygyrch a fforddiadwy i'r gymuned leol, wrth galon y busnes.

### Gellir dysgu mwy yma:

http://www.caetancsa.org/en/exciting-new-csa-for-morriston-hospital/

### Mannau Gwyrdd Gwydn:

Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn brosiect partneriaeth gwerth £1.27m sy'n cael ei arwain gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i dreialu systemau bwyd eraill sydd wedi'u hail-leoleiddio gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel sbardun ar gyfer newid ledled Cymru tan fis Mehefin 2023.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy gynllun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru -Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.